# PWYLLGOR MESUR ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004

## Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Rhagair y Cadeirydd

Mae'r cynigion sydd ym Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn effeithio ar sawl un o bortffolios y pwyllgorau pwnc. Dyma pam y sefydlodd y Cynulliad y Pwyllgor er mwyn bwrw ymlaen â gwaith y Pwyllgor ad hoc blaenorol, a fu'n craffu ar y Mesur drafft, ac er mwyn ystyried y darpariaethau a geir yn y Mesur sydd, ar hyn o bryd, gerbron y Senedd.

Hoffwn ddiolch i David Powell, Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad ac i Elisabeth Jones, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, sydd ar hyn o bryd yn gweithio gyda Swyddfa Cymru trwy drefniant a wnaed o dan Adran 41 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, am fynychu'r Pwyllgor er mwyn rhoi cyngor ynghylch materion yn ymwneud â drafftio.

Janet Davies AC
Cadeirydd

## 1. Cyflwyniad

1.1. Sefydlwyd y Pwyllgor o dan Orchymyn Sefydlog 8.1 ar 13 Ionawr 2004. Dyma'i gylch gorchwyl:

- Ystyried Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) fel y'i cyflwynwyd gerbron y Senedd ar 27 Tachwedd 2003;
- Ystyried y llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr oddi wrth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n trafod ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion Pwyllgor Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ynghylch y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft.
- Rhoi adroddiad i'r Cynulliad erbyn 6 Chwefror ar ei gasgliadau.

Bydd y Pwyllgor yn dirwyn i ben ar 27 Chwefror.

1.2. Aelodau'r Pwyllgor:

| | |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

1.3. Cyflwynwyd Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gerbron Ty'r Arglwyddi ar 27 Tachwedd 2003, a phan gyfarfu'r Pwyllgor, roedd yn aros i'r pwyllgor yn Nhy'r Arglwyddi ei ystyried.

1.4. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 22 Ionawr 2004. Amgaeir copi o'r cofnodion.

1.5. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur a gyhoeddwyd yng ngholeuni'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor blaenorol y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ac o ystyried ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion a nodwyd yn y llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr oddi wrth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus at y Cadeirydd.

## 2. Argymhellion y Pwyllgor

**i. Dylai'r Mesur ddiwygio a90 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 fel y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru gael ei benodi ar ôl ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai'r gwelliant gynnwys y ddarpariaeth fod y Cynulliad yn trafod y penodiad ar gynnig a gynigiwyd gan Brif Weinidog Cymru ac y cytunwyd arno â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.**

**ii. Dylid dileu Cymal 54. Os nad yw'r llywodraeth yn fodlon gwneud hynny, dylid achub ar y cyfle, cyn gynted ag y bo modd, i wneud gwelliant priodol i'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru a Lloegr.**

## 3. Ystyriaeth y Pwyllgor

3.1.1**. Dyma argymhelliad (i) Pwyllgor blaenorol y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ("y pwyllgor blaenorol")**:
*Dylai'r Mesur ddiwygio a90 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 fel y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru gael ei benodi ar ôl ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai'r gwelliant gynnwys y ddarpariaeth fod y Cynulliad yn trafod y penodiad ar gynnig a gynigiwyd gan Brif Weinidog Cymru ac y cytunwyd arno â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio*.

3.1.2. Nid oedd y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad ac nid yw'r Mesur a gyhoeddwyd yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru.

**Trafod a Dod i Gasgliad**

3.1.3. Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog y dylid ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch penodi'r Archwilydd Cyffredinol. Er hynny, Llywodraeth y Cynulliad sydd i benderfynu ymgynghori ai peidio, ac mae cyfraniad y Cynulliad cyfan yn dibynnu ar ewyllys da'r Llywodraeth.

3.1.4. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru ar sail enwebiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Argymhelliad**

**3.1.5. *Dylai'r Mesur ddiwygio a90 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 fel y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru gael ei benodi ar ôl ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylai'r gwelliant gynnwys y ddarpariaeth fod y Cynulliad yn trafod y penodiad ar gynnig a gynigiwyd gan Brif Weinidog Cymru ac y cytunwyd arno â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.***

**Dyma argymhelliad (ii) y pwyllgor blaenorol:**
*Dylid ymestyn darpariaethau Cymal 11 i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn hynt arian cyhoeddus wrth iddo drosglwyddo o lywodraeth leol i ddefnyddwyr, fel contractwyr a phob sy'n derbyn grantiau, er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ddefnyddio'n briodol.*

**Trafod a Dod i Gasgliad**

3.2.2. Roedd y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r ffordd y cafodd y Mesur a gyhoeddwyd ei ddrafftio.

**3.3.1. Dyma argymhelliad (iii) y Pwyllgor blaenorol:**
*Dylid diwygio Cymal 16 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol drafod y Cod Ymarfer a baratoir neu a adolygir o dan Gymal 16(1).*

**Trafod a Dod i Gasgliad**

3.3.2. Roedd y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r ffordd y cafodd y Mesur a gyhoeddwyd ei ddrafftio.

**3.3.3 Dyma argymhelliad (iv) y Pwyllgor blaenorol**:
*Dylid dileu cymal 50.*

**Trafod a Dod i Gasgliad**

3.3.4. Nid oedd y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y rhesymau a roddwyd yn y llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr gan y Gweinidog. Roedd y Pwyllgor o'r farn fod y Mesur yn darparu ar gyfer penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru ar wahân i fod yn bennaeth ar un corff archwilio cyhoeddus. Nid oedd yn derbyn na ddylai Cymru a Lloegr gael darpariaethau gwahanol ar gyfer datgelu gwybodaeth. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â barn y Pwyllgor blaenorol y byddai'r amddiffyniad sy'n cael ei gynnig i lywodraeth leol dan gymal 54 y Mesur a gyhoeddwyd (cymal 50 y Mesur drafft) yn ei rwystro rhag bod yn agored ac na fyddai'n cyd-fynd â'r amddiffyniad a roddir i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nid oedd y Pwyllgor yn derbyn y ddadl y gallai fod anghysondeb yn y ffordd y byddai'r un wybodaeth yn cael ei datgelu at ddibenion y gyfraith droseddol yng Nghymru a Lloegr.

**Argymhelliad**

**3.3.5. *Dylid dileu Cymal 54. Os nad yw'r llywodraeth yn fodlon gwneud hynny, dylid manteisio ar y cyfle, a hynny cyn gynted ag y bo modd, i wneud gwelliant priodol i'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru a Lloegr.***

**3.4.1. Dyma argymhelliad (v) a wnaed gan y Pwyllgor blaenorol**:
*Dylid atgyfnerthu Atodlen 3 para 3 i ddiogelu hawliau pensiwn staff y ddau sefydliad.*

**3.4.2. Dyma argymhelliad (vi) y Pwyllgor blaenorol**:
*Dylid diwygio Atodlen 3 para 4 i roi'r dewis i staff barhau â'u cyflogwr presennol, heb amharu ar eu telerau a'u hamodau presennol, ar ôl y dyddiad trosglwyddo.*

**Trafod a Dod i Gasgliad**

3.4.3. Nid oedd y Llywodraeth wedi derbyn argymhelliad (v) na (vi) ar y sail ei bod yn fwy priodol i'r materion hyn gael eu cynnwys yn y cynlluniau trosglwyddo statudol. Roedd y Pwyllgor yn derbyn y pwynt hwn.

**3.5.1. Dyma argymhelliad (vii) y Pwyllgor blaenorol**:
*Dylai'r termau yn y mesur fod yn ddiryw.*

### Trafod a Dod i Gasgliad

3.5.2. Roedd y Pwyllgor yn gresynu nad oedd y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn.

### Argymhellion eraill y Pwyllgor Blaenorol

3.6.1. Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i argymhellion eraill y Pwyllgorau blaenorol, a hynny heb wneud unrhyw sylw.

***Ionawr 2004***

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Iau, 22 Ionawr 2004
**Amser:** 9.00am tan 9.15am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol:** **Aelodau Pwyllgor y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru)**

| | |
|---|---|
| Janet Davies **(Cadeirydd)** | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Y Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

**Swyddogion yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| David Powell | Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad |
| Elisabeth Jones | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Yr Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Eilyddion a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Craffu ar Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru)**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd David Powell ac Elisabeth Jones, a oedd yn gweithio gyda Swyddfa Cymru drwy drefniant o dan adran 41 o Ddeddf Llywodraeth Cymru wrth i'r Mesur fynd ar ei hynt drwy'r Senedd.

2.2. Roedd papur PA(W)B2004(2)-01-04(p.1) yn nodi'r prif newidiadau a oedd wedi'u gwneud i'r Mesur a gyhoeddwyd ar ôl yr ymgynghori am y Mesur drafft yn ystod haf 2003. Aeth y Pwyllgor drwy Atodiad 2 i'r papur, a oedd yn nodi argymhellion pwyllgor ad hoc blaenorol y Cynulliad, sef Pwyllgor y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru), ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r argymhellion hynny.

**i. Dylai'r Mesur ddiwygio adran 90 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 er mwyn pennu bod yn rhaid ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru. Wrth fynd ati i ddiwygio'r Ddeddf honno, dylid cynnwys darpariaeth sy'n pennu y dylai'r Cynulliad drafod y penodiad ar ôl i Brif Weinidog Cymru gyflwyno cynnig yr oedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi cytuno arno.**

Nid oedd yr argymhelliad hwn wedi'i dderbyn. Roedd yr aelodau o'r farn bod angen ymgynghori ynghylch mwy o faterion o lawer na dim ond yr un yn ymwneud â phenodi'r Archwilydd Cyffredinol, ac roeddent yn teimlo'n gryf iawn y dylid ymgynghori â'r Cynulliad cyfan, yn hytrach na dim ond â Llywodraeth y Cynulliad. Dylai hyn fod yn ofyniad statudol, yn hytrach nag yn rhywbeth a oedd yn dibynnu ar ewyllys da yn unig, fel ar hyn o bryd.

**ii. Dylid ymestyn darpariaethau Cymal 11 er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol fedru olrhain hynt arian cyhoeddus a roddir gan lywodraeth leol i ddefnyddwyr megis contractwyr a'r rheini sy'n cael grantiau, er mwyn sicrhau bod yr arian hwnnw wedi'i wario mewn ffordd briodol ac addas.**

Roedd y Pwyllgor yn derbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â'r ffordd yr oedd y Mesur wedi'i ddrafftio.

**iii. Dylid diwygio Cymal 16 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal dadl ynghylch y Cod Ymarfer a gaiff ei baratoi neu ei ddiwygio o dan Gymal 16(1).**

Cadarnhaodd David Powell fod Cymal 16(4) wedi'i ddiwygio a bod yr angen am sêl bendith Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i gynnwys.

Roedd y Pwyllgor yn derbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**iv. Dylid dileu Cymal 50.**

Roedd y Pwyllgor yn anfodlon â'r ffaith nad oedd yr argymhelliad hwn wedi'i dderbyn. Soniodd yr aelodau am enghreifftiau lle'r oedd awdurdodau lleol wedi oedi cyn cyhoeddi adroddiadau gan y Swyddfa Archwilio Dosbarth, ac roedd rhai ohonynt yn teimlo y gallai'r cymal hwn roi mwy o rym iddynt wneud hynny. Roedd y Cadeirydd o'r farn bod y cymal yn golygu y byddai'r sefyllfa'n aros yn union fel yr oedd ar hyn o bryd. Ni dderbyniwyd barn Llywodraeth y DU, sef y dylai mater datgelu gael ei ystyried yn y dyfodol ar sail Cymru a Lloegr. Dylai datganoli olygu y gellid mynd ati i wneud pethau mewn ffordd wahanol yng Nghymru. Roedd gan y Cynulliad bwerau a allai olygu bod gwahaniaethau rhwng y gyfraith droseddol yng Nghymru ac yn Lloegr.

Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod y diwygiad hwn yn gwbl hanfodol ac y dylid mynd ar drywydd y mater. Pe na bai'r Senedd yn ei dderbyn, dylid ymdrin â'r mater mewn Mesur priodol a fyddai'n gymwys i Gymru ac i Loegr, am ei bod yn annerbyniol bod llywodraeth leol yn cael ei thrin mewn ffordd wahanol i sefydliadau cyhoeddus eraill.

**v. Dylid cryfhau atodlen 3 para 3 er mwyn diogelu hawliau pensiwn staff y ddau sefydliad.**

Roedd y Pwyllgor yn derbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**vi. Dylid diwygio atodlen 3 para 4 er mwyn i'r staff gael dewis a oeddent am aros gyda'u cyflogwr presennol ar ôl y dyddiad trosglwyddo, heb i hynny gael effaith andwyol ar eu hamodau a'u telerau gwasanaeth presennol.**

Roedd y Pwyllgor yn derbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**vii. Dylai unrhyw derminoleg a ddefnyddir yn y Mesur fod yn niwtral o ran rhywedd.**

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond gan wneud hynny â gofid.

2.3 Câi adroddiad am gasgliadau'r Pwyllgor ei baratoi ar gyfer dadl gan y Cynulliad ar 4 Chwefror. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus; Ysgrifennydd Gwladol Cymru; a'r Pwyllgor Materion Cymrei, gan nodi argymhellion y pwyllgor a chan amgáu copi o'i hadroddiad.

Gwasanaethau Pwyllgorau